Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU
(01492) 574000
Cyf/Ref: CCBC – 040761

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy**
**(Tudno Street Llandudno) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2022**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1 a 2 o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984, ei effaith bydd yn cyfyngu amser aros i 90 munud, dim dychwelyd o fewn 60 munud ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen isod. Darperir eithriad i ddeiliaid trwydded breswyl.

Bydd eithriadau'n cael eu darparu yn y Gorchymyn arfaethedig er mwyn caniatáu aros i bwrpas dod allan o gerbyd, mynd i mewn i gerbyd, llwytho, dadlwytho a gwaith cynnal a chadw, trwsio ac yn y blaen ac ar gyfer cerbydau sy'n arddangos bathodyn unigolyn anabl a disg parcio i bobl anabl.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â mapiau sy'n dangos y darn ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn arfaethedig ar wefan y Cyngor.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at yr Adran Draffig, yr Amgylchedd Ffyrdd a Chyfleusterau, Blwch Post 1 Conwy LL30 9GN neu at traffig@conwy.gov.uk erbyn 8 Ebrill 2022.

**Atodlen**
**Cyfyngu amser aros i 90 munud heb ddychwelyd o fewn 60 munud**
**Eithriad ar gyfer deiliaid trwydded breswyl**

| | |
|---|---|
| **Tudno Street, Llandudno** | **Ochr gogledd-orllewin;** o bwynt 5 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Old Road i bwynt 6 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Church Walks.<br><br>**Ochr de ddwyrain;** o bwynt 30 metr i'r gogledd ddwyrain o'i chyffordd â Llewelyn Avenue i bwynt 25 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd â Church Walks<br><br>**Ochr de-ddwyrain;** o bwynt 100 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Llewelyn Avenue am bellter o 10 metr tua'r gogledd ddwyrain. |

Dyddiedig: 16 Mawrth 2022

**Rhun ap Gareth**
**Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu**